Ysgol Gymraeg Pen y Garth
Heol Tircoch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262
E-bost – ygpenygarth@valeofglamorgan.gov.uk
Gwefan – www.ysgolpenygarth.cymru

Pennaeth – Miss Becca Pugh

Law yn Llaw Llwyddiant a Ddaw

**ADRODDIAD ESTYN**

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

O'r diwedd, gallwn rannu'r newyddion da gyda chi! Bu Estyn yn ymweld â'r ysgol yn gynnar iawn ym mis Hydref. Pleser mawr yw cael eich hysbysu y bod Estyn yn hapus iawn gyda'r cynnydd rydym wedi gwneud fel ysgol ers Ionawr 2023 a'u bod nhw o'r farn nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol bellach. Bu arolygwyr wrth eu boddau yn trafod gyda'n disgyblion yn ystod yr ymweliad. Nododd Estyn bod y *"disgyblion yn dangos brwdfrydedd ac yn gweithio'n annibynnol gyda phwrpas a bwrlwm".*

Rydw i mor falch o'r disgyblion a'r staff i gyd. Braint mawr yw cael cyd-weithio gyda nhw gyd yn ddyddiol. Mae'r staff a'r disgyblion wedi bod mor agored i newid a wedi sicrhau bod Ysgol Gymraeg Pen y Garth yn cynnig addysg a phrofiadau bythgofiadwy i'n disgyblion. Noda Estyn bod y *"staff wedi datblygu strategaeth addysgu Pen-y-Garth sy'n gosod disgwyliadau clir ar gyfer creu 'diwylliant i ddysgu'. Mae hyn wedi sicrhau cysondeb yn yr addysgu, ac o ganlyniad mae safonau addysgu ar draws yr ysgol bellach yn gyson dda."*

Mae'r ysgol hon yn un arbennig iawn ac rwy'n falch iawn o'r adroddiad diweddar, sydd bellach yn fyw ar wefan Estyn. Cytuna Estyn bod Pen y Garth yn gymuned ofalgar, *"Maent wedi creu cymuned ofalgar lle mae pwyslais ar barch at bob unigolyn.".* Heb os, ni fyddai'r llwyddiant gwych hwn wedi bod yn bosib heb waith caled yr holl staff na chwaith heb eich cefnogaeth chi fel rhieni a gwarchodwyr yr ysgol. Rydym ni'n ddiolchgar tu hwnt am bopeth rydych chi'n gwneud i'n cefnogi ni.

Fe wnes i addo i chi, yn ôl ym mis Ionawr 2023, y bydden i yn sicrhau cyd-weithio effeithiol er mwyn sicrhau llwyddiant yr ysgol, gallaf eich sicrhau unwaith eto, y byddwn ni'n parhau i weithio'n galed ac yn parhau i gyd-weithio gyda chi er mwyn sicrhau bod Pen y Garth yn ffynu hyd yn oed yn fwy. Gyda'r staff, y disgyblion, a'r rhieni sydd gennym; mae'r dyfodol yn ddisglair ac yn llawn gobaith.

Yr eiddoch yn gywir,
Miss Becca Pugh

https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-pen-y-garth-cy/

Ysgol Gymraeg Pen y Garth
Heol Tircoch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262
E-bost – ygpenygarth@valeofglamorgan.gov.uk
Gwefan – www.ysgolpenygarth.cymru

Pennaeth – Miss Becca Pugh

Law yn Llaw Llwyddiant a Ddaw

**ESTYN REPORT**

Dear Parents / Guardians,

Finally, we can share the good news with you! Estyn visited the school very early in October. It's a pleasure to inform you that Estyn are very happy with the progress we have made as a school since January 2023 and that they are of the opinion that we no longer require special measures. Inspectors were delighted to discuss with our pupils during the visit. Estyn noted that the *"Pupils show enthusiasm and work independently with purpose and excitement."*

I'm so proud of all pupils and staff. It is a great privilege to work with them all on a daily basis. The staff and pupils have been so open to change and have ensured that Ysgol Gymraeg Pen y Garth offers great education and experiences to our pupils. Estyn notes that the *"staff have developed a teaching strategy for Pen-y-Garth which sets clear expectations to create a 'culture of learning'. This has ensured consistency in teaching and, as a result, standards of teaching across the school are now consistently good."*

This school is a very special one and I am so very proud of the recent report, which is now live on the Estyn website. Estyn agrees that Pen y Garth is a caring community, *"They have created a caring community in which there is an emphasis on respect for each individual."* Without doubt, this fantastic success would not have been possible without the hard work of all the staff or without your support as parents and guardians. We are extremely grateful for everything that you do to support us.

I promised you, back in January 2023, that I would ensure effective collaboration to ensure the success of the school, I can assure you once again, that we will continue to work hard and continue to work together to ensure that Pen y Garth thrives even more. With the staff, pupils, and parents that we have; the future is bright and full of hope.

Yours truly,
Miss Becca Pugh

https://estyn.gov.wales/education-providers/ysgol-pen-y-garth/